# Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd: Pen Llŷn
# Adroddiad 1

**Gan Dafydd Rhys, Hwylusydd Cymunedol Pen Llŷn**

## Crynodeb

Ar ddydd Sadwrn yr 2il o Orffennaf 2022 daeth 34 ynghyd, yn Ysgol Botwnnog, i sefydlu Cynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Pen Llŷn. Roedd hyn yn dilyn gwahodd 50 o'r 90 a gofrestrodd ddiddordeb. Fe'u detholwyd yn wreiddiol gan raglen gyfrifiadurol i fod yn gynrychioliadol o ddemograffeg yr ardal. Dylid nodi fod ton o'r pandemig Covid wedi dylanwadu ar y niferoedd a fynychodd. Pwrpas y gyfres o bedwar cynulliad yw i ateb y cwestiwn **"Sut allwn ni ym Mhen Llŷn ymateb yn lleol i newid hinsawdd?"**

Amcanion y cynulliad cyntaf oedd:

- Dod i adnabod ein gilydd
- Dod i ddeall mwy am y broses
- Dysgu a rhannu profiadau am yr argyfwng hinsawdd
- Dysgu a rhannu profiadau am weithredu cymunedol
- Blaenoriaethu meysydd sydd angen ein sylw
- Ystyried rhaglen o weithgareddau rhwng y cynulliadau

## 10:00 Beth yw GwyrddNi a Chynulliad Cymunedol?

**(Casia Wiliam (GwyrddNi) Siôn Aled (Cyfieithydd) a Wil Parry (Ynni Llŷn)**

Ar ôl i'r Aelodau Cynulliad gofrestru a chael paned croesawyd pawb gan Casia Wiliam ar ran Gwyrddni a Wil Parry ar ran Ynni Llŷn. Eglurodd Siôn Aled (Cyfieithydd) y drefn gyfieithu. Aeth Casia ymlaen i egluro fod GwyrddNi yn cael ei ariannu o Gronfa Gweithredu Hinsawdd y Loteri Genedlaethol, fod y Cynulliadau yn atebol i'r aelodau ac y byddai'r broses o ddatblygu cynllun ymateb ar gyfer Pen Llŷn yn cymeryd pedwar cyfarfod Cynulliad. Cyflwynodd y sleidiau canlynol:

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

**Mae'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd yn cefnogi cymunedau ledled y DU i weithredu ar newid hinsawdd. Bydd y cymunedau hyn yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd pobl yn arwain yn y gwaith hwn. Gydag arian y Loteri Genedlaethol, byddant yn gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu eu dysgu ac yn cymryd rhan weithredol mewn symudiad ehangach o newid.**

The Climate Action Fund (CAF) is supporting communities across the UK to take action on climate change. These communities will demonstrate what's possible when people lead in this work. With National Lottery funding, they'll work together, share their learning and be active participants in a broader movement of change.

**"Os hoffech fynd yn sydyn, ewch eich hun.**
**Os hoffech fynd ymhell, ewch ynghŷd."**
**Dihareb Affricanaidd**

"If you want to go quickly, go alone.
If you want to go far, go together."
African Proverb

**"Ara deg mae dal iar."**
**Dihareb Gymraeg**

"Slowly, slowly is how you catch a chicken."

Welsh proverb

**"Rydan ni mewn cyfnod o frys; gadewch i ni arafu'**

*'The times are urgent; let us slow down.'*

Bayo Akomolafe

## Proses y Cynulliad

Pwrpas y cynulliad yw i ateb y cwestiwn

**"Sut allwn ni ym Mhen Llŷn ymateb yn lleol i newid hinsawdd?"**

Byddwn yn gwneud hyn dros 4 sesiwn.

**Sesiwn 1 - Gorffennaf 2022:**

- Dod i adnabod ein gilydd
- Dod i ddeall mwy am y broses
- Dysgu a rhannu profiadau am yr argyfwng hinsawdd
- Dysgu a rhannu profiadau am weithredu cymunedol
- Blaenoriaethu meysydd sydd angen ein sylw
- Ystyried rhaglen o weithgareddau rhwng y cynulliadau

## The Assembly Process

The purpose of the Assembly is to answer the question

**"How can we in Pen Llŷn respond locally to climate change?"**

We will be doing this over 4 sessions.

**Session 1 - May 2022:**

- Get to know each other
- Understand more about the process
- Learn and share experiences of climate change
- Learn and share experiences of community action
- Prioritise areas that need our attention
- Consider a programme of activities between assemblies

**Sesiynau 2 a 3 - Hydref/Gaeaf 2022:**

- Dysgu mwy am bynicau penodol
- Adnabod rhwystrau a chymhellion
- Cyd-ddychmygu'r dyfodol sydd ei angen a chychwyn cynnig atebion a chynllun gweithredu ar sut i'w gyrraedd.
- Clywed gan ysgolion lleol

**Sesiynau 4 - Gaeaf 2023**

- Creu cynllun gweithredu cymunedol

**Wedyn..**

- Aelodau'r Cynulliad (Os ydynt eisiau), a'r gymuned yn ehangach yn gweithredu ar y cynllun gyda cefnogaeth gan GwyrddNi.

**Sessions 2 a 3 - Autumn/Winter 2022:**

- Learn more about specific subjects
- Identify barriers and incentives
- Co-imagine a future, and start developing solutions and an action plan that will get us there
- Hear from local schools

**Sessions 4 - Gaeaf 2023**

- Create a community action plan

**Then..**

- Assembly Members (if they want to), and the wider community to act on the plan with the support of GwyrddNi.

## 10:20 Trafod egwyddorion a chanllawiau (Grwpiau)

Cyflwynodd Dafydd Rhys (Hwylusydd Cymunedol Pen Llŷn) y gweithgaredd cyntaf:

### 1. Canllawiau ac egwyrorion / Guidlines and Principles

**Pwrpas:** *Cychwyn trafodaeth ar sefydlu cyd-berchnogaeth ar egwyddorion, rheolau a chanllawiau i'r cynulliad.*

1. Pawb (yn eu grwpiau) i gyflwyno eu hunain - un gobaith + 1pryder am y Cynulliad. ((10m)
2. Pawb i nodi geiriau cysylltiedig ar eich taflen A4 phasio'r daflen ymlaen (bob 30 eiliad). (5m)
3. Pawb i ddefnyddio eu ffonau symudol i drosglwyddo geiriau i'r Cwmwl Geiriau ar y sgrin fawr. (10m)
4. Cytuno dau neu dri egwyddor/canllaw yn dilyn trafodaeth (10m)
5. Grwpiau i adrodd i'r Cynulliad llawn. (10m)

**Purpose:** *Begin discussion on establishing co-ownership of Assembly principles and guidlines*

1. In groups, all to present themselves, mentioning one hope and one fear (10m)
2. All to note linked words on your A4 paper and pass it on every 30 seconds (5m)
3. Use mobile phones etc. to transfer words on to Word Cloud on big screen. (10m)
4. Agree two or three principles following discussion (10m)
5. Groups to report to full Assembly

## Dyma ddetholiad o'r 'Gobeithion' gofnodwyd gan y pum grwp trafod:

- Ein bod yn mynd i gyflawni rhywbeth
- Bod yn ymgysylltiedig a chefnogol
- Cychwyn dysgu am fesurasu addasu
- Dod a'r gymuned at ei gilydd
- Darganfod ffordd i fyw yn well gyda natur
- Dysgu mwy a gweld beth fedrwn gyflawni fel grwp
- Taclo gwastraff sbwriel
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus - sy'n ymarfferol i'r anabl
- Cynyddu pwyntiau gwefru
- Buddion i aros yn lleol
- Bod na ffordd i ddatblygu arferion gwyrdd a diogelu'r amgylchedd
- Lleoleiddio a gwneud y pethau bach
- Cytuno ar gynllun cadarn ar beth sy'n bosib yn lleol
- Cytuno gweithrediadau i'r gymuned amaethyddol leol
- Datganoli

- Ein bod yn cyflawni
- Fod y gymuned yn ein cefnogi
- Gobeithio addysgu a dylanwadu ar eraill
- Sicrhau fod teithio cynaliadwy a gweithredol ar yr agenda
- Pwllheli ddi-blastig
- Gwneud rhywbeth er dyfodol ein plant - arafu effaith newid hinsawdd
- Cytundeb ar un cam gweithredu ymarferol
- Cael pobl i gydweithio
- Amlygu pethau y gallaf i eu gwneud
- Prosiectau cymunedol - ddim angen eu gwneud ein hunain
- Gwneud rhywbeth am ddibyniaeth ar danwydd
- Cyflawni rhywbeth positif

## Pryderon a gofnodwyd gan y pum grwp trafod:

- Siop siarad sydd ddim yn cyflawni
- Llawer o siarad gan gyrff cyhoeddus ond dim newid yn eu dull gweithredu
- Diffyg cyllid i weithredu
- Dim pobl ifanc yma
- Fydda i ddim yn deall os bydd gormod yn y Gymraeg
- Sut i sicrhau bywyd gwyrdd fforddiadwy
- Graddfa a cyflymder ddim yn ddigonol
- Mân densiynnau a gwleidyddiaeth leol
- Dadlau a methu ffeindio tir cyffredin
- Fod ein cynllun yn cael ei wrthod gan lywodraeth leol neu ganolog
- Amherthnasrwydd oherwydd agenda'r llywodraeth
- Canllawiau cynllunio yn ffrwyno cynlluniau
- Y gymuned ehangach 'ddim yn deall'
- Ein bod wedi ei gadael hi'n rhy hwyr
- Cost gweithredu unigol yn rhwystr
- Newydd i'r ffordd yma o gyfrannu
- Dealltwriaeth o newid hinsawdd yn ansicir
- Cynlluniau 'gwyrdd' sy'n rhy fawr ac yn rhoi budd i ardaloedd eraill
- Pobl leol yn gweld hyn yn broblem i eraill ac nid iddyn nhw eu hunain

- ‘Lowest common ‘denominator’’
- Anodd gwneud cynnydd dros ardal eang
- Ein bod yn rhoi cyfrifoldeb ar eraill

## Cwmwl Geiriau - egwyddorion:

Fel cam tuag at ffurfio brawddegau yn diffinio egwyddorion a rheolau i’r Cynulliad, adnabyddwyd y geiriau allweddol drwy weithgaredd cyswllt geiriau. Yna cawsant eu bwydo yn ddigidol i greu Cwmwl Geiriau:




## Egwyddorion a chanllawiau:

Lluniodd y grwpiau nifer o egwyddorion/canllawiau gan eu cyflwyno i’r Cynulliad Llawn:


- Unrhyw gynllun i ganolbwyntio ar iaith a diwylliant unigryw yr ardal
- Buddsoddi’r budd yn lleol mewn prosiectau e.e. (swyddi, tai ayb.)
- Datblygu cynlluniau sy’n canolbwyntio ar adnoddau naturiol
- Annog twristiaeth werdd a threftadol
- Datblygu prosiectau ar lefel lleol a micro lleol (e.e. Prosiect fyddai yn addas i Aberdaron ddim o angenrheidrwydd yn addas i Bwllheli)
- Cynhwysoldeb - llais i bawb, canfod yr hyn sy’n gyffredin, positifrwydd

- Eglurdeb - gwneud yn siwr fod pawb yn deall, egluro pwrpas, gonestrwydd a chyflwyno ffeithiau a thystiolaeth gywir gyda chyd-destun
- Gweithio tuag at flaenoriaethau gweithredol
- Ystyried sut y mae gwahanol themau yn effeithio eu gilydd a datblygu themau trawstoriadol
- Y lleol a'r byd-eang yn gysylltiedig
- Gwerthfawrogi'r tir, bioamrywiaeth ac ecosystemau
- Meddwl yn greadigol a meddwl-agored
- Mae'n iawn peidio cytuno
- Ymroi i gyfathrebu yn eang mewn amrywiol ffyrdd i gynnwys pawb yn y gymuned
- Canolbwyntio a bod mor benodol a phosib yn ein negeseuon a thrafodaethau
- Dim 'jargon'
- Cydweithio gyda charedigrwydd tuag at nôd cyffredin
- Uchelgais berthnasol a realistig
- Cydweithio mewn grwpiau diddordeb mewn ffordd gydweithredol, cymuned-ganolog


## Damcaniaeth 'U' Scharmer a Donyt Terfynnau Planedol Raworth

Cyn yr egwyl cyflwynodd Dafydd Rhys y ddwy ddamcaniaeth uchod fyddai'n gallu rhoi cyd-destun egwyddorol a gweithredol i waith y Cynulliad.

## Damcaniaeth ‘U’




## Donyt Terfynnau Planedol




## 11:10 Egwyl, paned a Donyt GwyrddNi

## 11:25 Nodweddion a themau yr Argyfwng Newid Hinsawdd Cyflwyniad gan Dr Einir Young

**(Cyn-Gyfarwyddwr Cynaladwyedd Prifysgol Bangor / Eco Amgueddfa)**

Rhoddodd Einir Young gyflwyniad fideo byr yn egluro'r ehangder o ystyriaethau a nodweddion sy'n rhan o'r drafodaeth ar ymateb i newid hinsawdd. Gweler y cyflwyniad yma a thrawsgrifiad o'r sgwrs yma.

## Ymarfer grŵp: 'Mapiau Meddwl' ac adnabod nodweddion (Dafydd Rhys)

## 2. Ymarfer Mapiau Meddwl / Mental Maps

**Pwrpas:** *Canfod perspectif unigol pawb, cychwyn adnabod nodweddion Newid Hinsawdd Pen Llyn a sylweddoli fod canfyddiad a phrofiad pawb yn wahanol ac i'w werthfawrogi.*

1. Pawb i ddylunio map meddwl personol o Ben Llyn (ar y papur A3) gan nodi nifer o nodweddion cymunedol, daearyddol a newid hinsawdd ayb. sy'n bwysig i chi.(10m)
2. Aelodau grwpiau i gymharu eu mapiau a throsglwyddo nodweddion i'r map mawr ar y papurau gludog(dros ginio?) (5m).

**Purpose:** *Find personal perspectives, start identifying Pen Llyn's Climate Change features and realise that everybody's perception and experience is different and to be respected.*

1. Create a personal mental map of Pen Llyn (on the A3 paper), noting several community, geographical and climate change features that are important to you (10m)
2. Group members to compare maps and transfer features to 'big map' on post-it notes etc. (over lunch) (5m)


Cynhyrchodd aelodau'r cynulliad fapiau meddwl unigol, amrywiol ac unigryw fydd yn sylfaen i gyd-ddealltwriaeth a deall yr amrywiaeth o nodweddion sy'n cael eu gweld yn berthnasol.








Dyma enghreifftiau:



Ychydig bach o bob dim
o'r arfordir i'r Ben Garn,
Yr Eifl
Garn Boduan
Pen Llyn y dyfodol
Hanes
gweladwy
ein treftadaeth
y chwareli
LLANW
Hunan gynhaliol
– wyn tewion –
– Mae'r trysrau wedi ei gyrru allan.
50
Ceir yn gyrru ar gyflymder
ucha o 50 mya awr
Mwy o ffermio cymysg (tyfu/cynhyrchu mwy o fwyd yn lleol.
Cludiant cyhoeddus amlach/rhwyrach
Plannu coed ar gloddia ffermydd.
Siediau ffermydd – solar panels
Marchnata dwr Cwmstrallyn er mwyn cael llai o boteli plastic dwr.
LLANW.
Y Ffor
Efail
Llwybrau Beicio a cherdded i gyflawni tasgau dyddiol.
Llan
Pwllheli
LLANW


MARINE
CONSERVATION
AREA?
CLEAN
SOIL
DEGRADATION
STOP
QUARRYING
– LOCAL
INDUSTRIES?
WAYS
– WATER SUPPLY
– CLEAN
– THRIVING.
MODELS
OF GOOD
PRACTISE
– HENBANT
– LOCAL PRODUCE
PLASTIC
FREE
TOURISM
– ECO-sharing principles
– PEOPLE
– LANGUAGE
– CULTURE
– COMMUNITY
COHESIVE
VALUED
PUBLIC
TRANSPORT
– INCREASE
– CAR FREE?
FOREST
– GROW
– PROTECT
FARMING
– AGROECOLOGICAL
PRACTISES
– SELF-SUFFICIENT
BIODIVERSITY
– HEDGEROWS
– FARMING WITH WILDLIFE
– RENEWE
HISTORY
– ANCIENT – CONSERVE
– REVERE
– WELLS/MONUMENT
ISSUES
FLOODING
DROUGHT
HEAT
SEA LEVEL RISE
FOOD INSECURITY
TRANSPORT
POLLUTION
ADAPT –
HOW?

## 12:15 Cinio

**13:00 Blaenoriaethu themau Newid Hinsawdd?**
**Cytuno ar 6/7 maes i drafod ac ymchwilio ymhellach**

Nododd aelodau'r grwpiau tua 350 o nodweddion newid hinsawdd ar y cardiau cyn chwarae gem snap oedd yn eu clystyru mewn themau cyffredin. Bwydwyd y themau i feddalwedd Mentimeter a cawsant eu blaenoriaethu gan aelodau'r cynulliad drwy ddefnyddio eu ffonau symudol. Dyma oedd y canlyniad:




Yn dilyn yr ymarfer blaenoriaethu cafwyd sesiwn drafod gan y Cynulliad Llawn i benderfynu ar ffordd ymlaen. Dylid nodi mai ymarfer i grisialu bras-ganfyddiaeth yr aelodau, procio trafodaeth a hwyluso dod i benderfyniad oedd y gweithgaredd Mentimetr. Gellid gweld fod yr holl themau wedi derbyn cryn gefnogaeth a bod cyfiawnhad mewn eu hystyried ymhellach. Yr her y prynhawn hwnnw oedd cytuno ar feysydd i'w hymchwilio ymhellach mewn 5 grŵp trafod (gweler isod). Penderfynwyd cyfuno nifer o'r themau gan gofio hefyd eu bod yn gyd-gysylltiedig o edrych ar y darlun mawr. Penderfynwyd hefyd ar ddwy thema drawstoriadol a ddylai gael ystyriaeth benodol ym nhob trafodaeth sef 'Iaith a diwylliant' a 'Micro-gymunedau'.

## 14:15 Be’ ‘da ni’n wybod, be’ da ni ddim a be’ nesa?

Dewisodd Aelodau’r Cynulliad ymuno gydag un o’r pump grŵp trafod isod i ateb y cwestiynau uchod. Yng Nghynulliad 2, bydd ymarfer ‘carwsel’ i alluogi pawb roi mewnbwn a pherchnogi’r canlyniadau.

1. **Ynni, trafnidiaeth a micro-gymunedau**

### Be’ da ni’n wybod?:

Hen dai, effeithiolrwydd isel, ddim yn eco-gyfeillgar

Ychydig o ynni adnewyddol (drud)- morol, gwynt, solar

Dibyniaeth ar olew

Seiledd trafnidiaeth wael ar gyfer - twristiaeth di-gar, teithio actif (cerdded, beicio), trafnidiaeth gyhoeddus (anaml a llifogydd ar y lein trên)

Cysylltiadau da gyda chyrchfannau nodol fel Pwllheli yn unig

Gwastraff bwyd ar gyfer ‘biomass’

‘EVCP’ yn gyfyngedig

Drws i Ddrws - trafnidiaeth gymunedol

Llawer o faniau cludiant - heb gydlyniad o ran effeithiolrwydd

Dibyniaeth ar geir

Cynhyrchu egni wedi ei ganoli

Galw amrywiol a thymhorol

### Be da ni ddim yn wybod?:

Pa mor lân yw hydrogen?

Beth yw’r gymysgfa ynni briodol ar gyfer Llŷn?

Cyswllt gyda Gwynedd Werdd ac Ynni Llŷn?

Pe bai pawb yn cefnogi un cynllun, beth fyddai hwnnw (a beth fyddai’r effeithiau ar yr amgylchedd, $CO_2$ a chloddio yn fyd-eang)?

Beth yw cynllun y llywodraeth ar gyfer ynni niwcliar?

Faint o bobl yn lleol sy’n ymroddedig i hunan-gynhaliaeth?

Pa gynlluniau ynni sy’n gymunedol a than berchnogaeth leol?

Pa gyllid sydd yn hawdd ei gael?

Beth nesaf?:

Angen ymchwil ehangach ar gysylltiadau - nid cymdeithasol yn unig

Mini-ganolfan i CAT (Canolfan Dechnoleg Amgen) yn Llŷn

Mwy o addysg am ynni yn y cwricwlwm ar gyfer yr ifanc

Sut ydym yn mynd ati i weithredu?

## 2. Amaeth, pysgota a bioamriwiaeth

### Beth 'da ni'n wybod?

Sion Williams - newid hinsawdd yn effeithio ar y ddalfa, rhywogaethau a.y.b.

Amaeth yn cyfrannu at newid hinsawdd yn fyd-eang - angen addasu technegau e.e. Yr hyn sy'n cael ei dyfu

Diffyg cyfleusterau e.e. llad-dai a.y.b.

Diffyg grantiau arallgyfeirio efallai?

Ffermio cyfyngedig a dwys

Natur tymhorol

Marchnadoedd tref

Rhandiroedd

### Be 'da ni ddim yn wybod?

Beth yw sefyllfa bioamrywiaeth heddiw - 'base-line'?

A fyddai ffermwyr yn fodlon gwneud newidiadau bach?

Angen gwybod pwy yw arweinwyr y diwydiannau a'u cael yn y cynulliad

Beth fydd grantiau (EU) y flwyddyn nesaf

Beth mae cymuned Llŷn eisiau - organig x rhad a.y.y.b.

### Beth nesaf?

Oes angen sefydlu rhywbeth arall fel grŵp neu is-grŵp i bob thema i yrru pethau ymlaen?

Rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned ar ôl cyfarfod llawn y Cynulliad.

Cyflwyno tyfu bwyd mewn ysgolion i addysgu plant

Gwahodd arbenigwyr yn y maes i gynghori

Cynghorau Cymuned - dod a nhw mewn i'r drafodaeth

## 3. Gwastraff

### Be da ni'n wybod?

Buniau 'wheelie'

Ailgylchu disgybledig - llwybrau clir i drin gwastraff

Canolfannau ail-gylchu i eitemau mawr

Siop 'sero gwastraff' ym Mhwllheli

Spar - llysiau di-blastig

Farmgate - carbon negatif a llai o wastraff

Asda - popeth yn blastig

Tŷ Coch - gwydrau plastig

Peiriant llefrith 24 awr ym Mhwllheli

### Beth da ni ddim yn wybod?

Ydy popeth sy'n ailgylchadwy yn cael ei ail-gylchu?

Angen mwy o gyngor e.e. Glanhau gwastraff i'w ail-gylchu

A ydy hi'n ddigon hawdd gwybod pryd mae gwahanol wastraff yn cael ei gasglu?

Beth yw sefyllfa busnesau lleol o ran ailgylchu?

Faint o garffosiaeth sy'n dianc dan ofalaeth cwmniau dŵr?

Gwastraff y marina?

Beth sy'n digwydd i wastraff siopau / ysgolion?

Oes na fanciau ac oergelloedd bwyd ym Mhen Llŷn?

Ydy gwastraff ymwelwyr yn broblem ar draethau - digon o finiau a.y.b.?

Beth yw'r sefyllfa o ran gwastraff adeiladu lleol?

Oes na lawer o 'dipio sbwriel' ym Mhen Llŷn?

### Beth nesa?

Mynd a phlant/grwpiau ysgol i ymchwilio a dysgu am ganolfannau ailgylchu

Rhaglen ddogfen am wastraff o berspectif lleol e.e. Ar Facebook

Eglurdeb am resymeg gwahanol reolau ailgylchu

Edrych ar y rheolau ynghylch bwcio apwyntiadau ailgylchu

‘Syrffwyr yn erbyn carffosiaeth’ - ‘Gwobr di-blastig’.

E.e. Pwllheli ddi-blastig

Llyfrgell y Petha’ - Catrin Wager - benthyg

Cynllun rhannu bwyd o ryw fath?

Caffis trwsio

Siopau rhentu pethau

Rhannu ceir

Buniau ailgylchu ar y stryd

Dirwyo cwmniau mawr am wastraff

## 4. Datblygu cymunedol, pobl ac ymddygiad

### Be da ni’n wybod?

Mae gan Mantell Gwynedd gofnod o briosectau blaenorol

Cynllun clirio traeth Llanbedrog + Yr Heliwr

Datrysiadau llawr gwlad

Gardd tu allan i ganolfannau hamdden Porthmadog a Phwllheli

Bydd addysg, eco-ysgolion a chymunedau cytun yn hepu datblygiad

Pwysig dod a phobl i gysylltiad gyda mentrau sydd eisioes yn bodoli e.e.

Amgueddfa Forwrol Llŷn

Bydd gan bob cymuned anghenion gwahanol

Tŷ Gwydr wedi ei wneud o boteli plastig

### Beth ‘da ni ddim yn gwybod?

Anghen rhestr o sefydliadau lleol sy’n ymwneud gyda’r maes

A oes hygyrchedd i bawb - anableddau weithiau’n ei gwneud hi’n anodd gwneud y dewis gwyrdd

Angen mwy o bwyntiau gwefru?

Beth fedrwn ei wneud am gilfachau llawn sbwriel yn yr haf?

Fedrwn ni siarad gyda’r Cyngor a llywodraeth Cymru

Budd i iechyd meddwl a natur - siaradwr gwadd?

A fedren gael cystadleuaeth tref / gardd wyrddaf?

Eco-seicoleg / ‘Prescreibio natur’ - Siaradwr Adnoddau Naturiol Cymru?

Gwybodaeth am gynnwys systemau gwyrdd mewn adeiladau cyhoeddus

## Beth nesaf?

I wneud prosiectau cymunedol e.e. Ailgylchu ar raddfa gymunedol

Annog twristiaeth werdd drydanol yn yr ardal

Mwy o drennau gan gynnwys Bangor i Bwllheli

Dylai'r broses gynllunio gynnwys edrych ar ofodau gwyrdd

Cynnwys yr ifanc e.e. Hel sbwriel

Rhoi gwerth ar gyfrifoldeb personol

Cystadleuthau celf a thref wyrddaf - gan gynnwys plant

Ailgylchu carffosiaeth

Mwy o ofodau gwyrdd i bobl

Trefnu ymweliadau i drigolion lleol brofi byd natur

Mapio cymunedau

Asdeiladu ar ymdeimlad o falchder lleol

Celf a natur

Cysylltu gyda chynrychiolwyr cwrs Datblygiad Cymunedol y Brifysgol

Swyddog Datblygu Cymunedol yn y Cyngor

## 5. Bioamrywiaeth a hunan-gynhaliaeth

## Beth da' ni'n wybod?

Rhywogaethau ymledol

Archwiliadau 'Cyswllt Ffermio'

Gors Geirch

Tyfu llysiau adre

Cymdeithas Edward Llwyd -

Dolydd Llŷn (Llŷn Meadows) = Jo Porter

Datblygu Ysguboriau = colli cynefin

Gerddi a ffermydd cymunedol

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru - Pistyll

Ffermwyr wedi sefydlu ''pori ar y cyd' ger Rhydyclafdy

Cyngor yn rheoli llwyni a pherthi ar ymyl lonydd

Partneriaeth natur Gwynedd

Rhandir Heliwr Nefyn

‘Da ni’n adnabod rhywyn fydd yn gwybod’

Llangwnadl - cadw hadau

Treftadaeth + Natur Llŷn - Canolfan Bioamrywiaeth

Ardal o Harddwch Naturiol Peb Llŷn

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Rhoshirwaun - Dolydd Y Gorlan - cynhaeaf gwair traddodiadol a bioamrywiaeth

Cyngor Tref Pwllheli yn chwilio am lecynau gwyrdd i’w datblygu

Gardd Gymunedol Pwllheli

**Be da ni ddim yn gwybod?**

Arolygon annigonol  ac aneffeithiol

Economi ac ymwneud amgen i hwyluso hunan-gynhaliaeth:

Sut i dyfu bwyd, compostio, arbed dŵr, dim-palu, bondocio

Cysylltiadau gyda’r Ffermwyr Ifanc

Maint y defnydd o ddefnyddiau lleol ar gyfer adeiladu a.y.b.

Enwau Cymraeg llefydd, rhywogaethau, y cyswllt treftadaeth naturiol a’r awydd i’w amddiffyn

Dim banc hadau cynhenid Pen Llŷn

‘Milltiroedd bwyd’ y bwyd yr ydym yn ei fwyta

## Perspectif ar Ben Llŷn

Yn ystod y prynhawn cafwyd sgwrs dros zoom gyda Siôn Williams o’i gwch pysgota: Eglurodd lawer o’r newidiadau hinsawdd a bioamrywiaeth a welodd dros y degawdau diwethaf. Gallwch wylio cyflwyniad Siôn yma neu ddarllen trawsgrifiad o’r sgwrs yma.

Cafwyd hefyd gyflwyniad fideo (wedi ei recordio gan Dr Prysor Williams - Prifysgol Bangor yn sôn am amaeth a newid hinsawdd. Gallwch wylio cyflwyniad Prysor yma neu ddarllen trawsgrifiad o’r cyflwyniad gyda’r sleidiau yma.

## 15.15 Egwyl a phaned

## 15.30 Crynhoi, edrych ymlaen a gwerthuso

Rhoddodd Casia Wiliam drosolwg o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y diwrnod a rhagolwg o'r hyn i'w ddisgwyl yn y cynulliadau nesaf. Diolchwyd i'r aelodau am eu gwaith ac i staff GwyrddNi a'r gwirfoddolwyr a gefnogodd y broses. Wrth adael, rhoddodd yr aelodau adborth ar siart oedd yn bositif ar y cyfan. Ymgynghorwyd hefyd ynghylch dyddiadau posibl i Gynulliad 2 (a fydd ar yr 8fed o Hydref). Gofynwyd i bawb hefyd nodi lle yr oeddem wedi cyrraedd ar y daith 'Damcaniaeth U'. Roedd y mwyafrif yn nodi ein bod wedi cychwyn y daith lawr ochr chwith yr 'U' a rhai yn rhoi croes mor belli lawr a gwaelod yr 'U' (lle byddem yn 'presynhwyro / gallu dychmygu a chreu dyfodol gyda'n gilydd).

Dyma rai sylwadau a syniadau a nodwyd:

Dylid ystyried cymysgu grwpiau

Llawer i'w wneud mewn byr amser

Ystyried symud lleoliad y sgrin - rhy bell i ffwrdd

Anodd gweld a chlywed weithiau

Cyfarfod nesaf yn rhy bell i ffwrdd

Beth am grwp ' Facebook'

## 16.00 Gorffen

www.gwyrddni.cymru

www.facebook.com/gwyrddni

www.twitter.com/gwyrddni

www.instagram.com/gwyrddni_/